CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM
ADRODDIAD BLYNYDDOL YR AELODAU

Adroddiad yw hwn gan y Cynghorydd isod ynglŷn â'i brif/phrif weithgarwch yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Mai 2013. Mae wedi ei lunio er gwybodaeth yr holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall.

Cynghorydd: **Plaid:**

Ward:

Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau

Rwyf yn aelod o'r pwyllgorau canlynol:

1. Pwyllgor Cynllunio
2. Pwyllgor Craffu Cartrefi, Amgylchedd a Chymunedau
3. Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad ac Adnoddau
4. Y Cyngor

Rwyf yn aelod o'r pwyllgorau allanol canlynol:

1.Cyngor Cymuned Marchwiel
2. Cyngor Cymuned Sesswick
3. Llywodraethwr, Ysgol Deiniol Marchwiel
4. Rwy'n mynychu cyfarfodydd Cynghorau Cymuned Eyton ac Erbistock
5. Rwy'n mynychu cyfarfodydd Grŵp Diogelwch Cymunedol De Wrecsam sy'n cael eu trefnu gan Heddlu Gogledd Cymru.

Adran 2: Gweithgarwch Etholaeth

1. Cynnal cyfarfodydd rheolaidd ac ymweliadau safle gyda Swyddogion Cymorth Cymuned yr Heddlu ym mhob ardal o'r ward, a mynegi pryderon y trigolion yn ymwneud â throsedd ac anrhefn.
2. Ymweliadau safle gyda swyddogion rheoli'r Priffyrdd ynglŷn â chyflwr y Priffyrdd yn y ward a mynegi pryderon y trigolion. Trafodaethau parhaus ynglŷn ag adolygiad cyfyngiadau cyflymder yn y ward.
3. Ymweliadau safle gyda Swyddogion Tai ynglŷn â'r Cynllun Amgylcheddol.
4. Delio ag adroddiadau, cwynion ynglŷn â materion sy'n berthnasol i'r Cyngor gan drigolion a thenantiaid yn ddyddiol.
5. Delio ag anawsterau parhaus ar ôl cwblhau ffordd gyswllt Wrecsam.
6. Cefnogi elusennau lleol.
7. Cynorthwyo ar ddiwrnod Parti Nadolig yr Henoed Marchwiel.
8. Cefnogi ein hysgol leol yn fy rôl fel llywodraethwr.
9. Ymgyrchu i gael llwybr troed newydd i'r Five Fords ar hyd yr hen reilffordd sy'n cael ei ddefnyddio'n rheolaidd yn awr.

Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

1. Trefnu grwpiau lleol, a sefydliadau i gymryd rhan yn ein diwrnod amgylcheddol. Ar y diwrnod roedd Sgowtiaid a Geid lleol, Cadwch Gymru'n Daclus, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru, Strydwedd Wrecsam, Adran Tai Wrecsam, Trigolion Lleol a'n Cyngor Cymuned yn bresennol. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn a

chasglwyd dros 40 bag sbwriel.

.

Adran 4: Dysgu a Datblygu

1. Wedi mynychu sesiynau hyfforddiant a ddarparwyd gan y Cyngor, a gweithdai amrywiol yn ystod y flwyddyn.

Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill

1. Mynychu cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol pan fo modd.
2. Mynychu cyfarfodydd Grŵp wedi'u trefnu gan Grŵp Annibynnol Wrecsam.
3. Mynychu cyfarfod cyhoeddus gyda Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru a thrigolion oherwydd problem yn ymwneud ag unigolyn yn cynnau tân yn fwriadol.
4. Mynychu cyfarfodydd wedi'u trefnu gan W.R.A.P.S sef Cynllun Trigolion Wrecsam yn erbyn Pŵer, ac wedi nodi a chefnogi eu pryderon.
5. Cefnogi'r gwelliannau arfaethedig i Neuadd Bentref Marchwiel.